**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref WQ84298

Siân Gwenllian AS/MS
Aelod o'r Senedd dros Arfon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Sian.Gwenllian@senedd.cymru

21 Mawrth 2022

Annwyl Siân,

Ar 27 Ionawr, yn WQ84298, fe wnaethoch ofyn pa bryd y bydd pasys COVID llawn, sy'n rhoi tystiolaeth ffurfiol o statws brechu a chanlyniadau COVID positif blaenorol, ar gael i bobl ifanc 12-16 oed.

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi bod Pàs Ieuenctid ar gael yn awr. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yma https://llyw.cymru/cael-eich-pas-covid-y-gig .

O ran canlyniadau profion, mae Pasys Gwellhad hefyd yn cael eu cynnwys ar gyfer Teithio Rhyngwladol os gwnaed y profion PCR yn system labordai iechyd cyhoeddus Lloegr. Mae hyn yn berthnasol i 70% o'r profion. Mae'r 30% sy'n weddill yn cael eu gwneud mewn system gyfwerth yng Nghymru ac yn canolbwyntio yn bennaf ar weithwyr y GIG a chleifion mewn lleoliadau iechyd; rydym yn gweithio gydag UKHSA, NHSX ac NHS Digital yn Lloegr i drefnu i gynnwys y profion hyn. Byddwn yn diweddaru ein gwefan pan fydd hyn ar gael.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.